# Rheolwr Cymorth Datblygu

## Hub Cymru Africa

# Disgrifiad o'r Swydd

| | |
|---|---|
| Cyflogir gan: | Panel Cynghori Is-Sahara |
| Yn gyfrifol i'r: | Uwch Reolwr Cymorth Datblygu |
| Cyflog: | £34,434.00 y flwyddyn pro rata (Gwirioneddol £20,660.40 y flwyddyn ar sail 22.5 awr yr wythnos) |
| Telerau cyflogaeth: | Contract cyfnod penodol – tan 31 Mawrth 2027 ar hyn o bryd (gyda'r posibilrwydd o ymestyn yn dibynnu ar gyllid yn y dyfodol) |
| Lleoliad: | Trefniadau gweithio hybrid, ond bydd disgwyl i ddeiliad y swydd fynychu Swyddfeydd SSAP yng nghanol Caerdydd yn ôl yr angen. |
| Oriau: | Rhan-amser (22.5 yr wythnos) – gallai diwrnodiau gweithio ac amseroedd gweithio hyblyg gael eu hystyried |
| Gwyliau Blynyddol: | 28 diwrnod a gwyliau cyhoeddus pro rata |
| Teithio: | Efallai y bydd y rôl hon yn gofyn am rywfaint o deithio yng Nghymru ac o bryd i'w gilydd, yn y DU, gan gynnwys aros dros nos. |
| Pensiwn: | Bydd deiliad y swydd yn cael ei gofrestru'n awtomatig yn NEST, cynllun pensiwn SSAP. Mae SSAP yn gweithredu cynllun pensiwn ble mae'r cyflogai a'r cyflogwr yn gwneud cyfraniadau. Byddwch chi'n talu 5% o'ch enillion yn ystod pob cyfnod tâl, a byddwn ninnau hefyd yn talu 5% o'ch enillion yn ystod pob cyfnod tâl. Felly, y cyfraniad cyfan i'ch pot pensiwn fydd 10%. |



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
Sub-Sahara Advisory Panel SSAP

# Hub Cymru Africa

Sefydlwyd partneriaeth Hub Cymru Africa (HCA) yn 2015, fel cydweithrediad rhwng partneriaid Cyrff Anllywodraethol. Mae'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno elfennau allweddol o [Raglen Cymru ac Affrica](). Ar hyn o bryd, mae'r bartneriaeth yn cynnwys Cymru Masnach Deg, Cymru Global, Panel Cynghori Is-Sahara (partner lletya) a Phartneriaethau Iechyd Byd-eang Cymru. Mae pob aelod partner yn endidau cyfreithiol drwy eu hawl eu Hunain. Ers 2018, mae'r Bartneriaeth wedi ehangu, a chyda cyllid ychwanegol gan Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu'r DU, mae hi'n gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau i gefnogi sector datblygu rhyngwladol bywiog i Gymru, fel rhan o Gynghrair y DU.

# Ynghylch Panel Cynghori Is-Sahara

Sefydlwyd Panel Cynghori Is-Sahara yn 2009, pan y gwnaeth nifer o grwpiau diaspora Affricanaidd yng Nghymru gyfarfod i ystyried sut y gallent hyrwyddo eu diddordeb cyffredin mewn materion lleol sy'n effeithio ar gymunedau Affricanaidd yng Nghymru gyda'i gilydd, yn ogystal â'r rheiny yn Affrica. Mae SSAP yn defnyddio'r profiad bywyd a'r sgiliau, y gallu a'r wybodaeth a geir ymhlith cymunedau diaspora Cymru - Affrica. Rydym eisiau cyflwyno ein profiadau bywyd i'r sector elusennau, yn ogystal ag eiriol dros y grwpiau diaspora ym maes datblygu rhyngwladol. Rydym yn gwneud hyn trwy weithredu mentrau datblygu yng Nghymru ac ar draws Affrica Is-Sahara. Os hoffech ragor o wybodaeth, ewch i [ssap.org.uk]().

# Crynodeb o'r rôl hon

Bydd y Rheolwr Cymorth Datblygu yn gweithio gyda gweddill tîm Hub Cymru Africa i gefnogi grwpiau ac unigolion i ddatblygu partneriaethau o ansawdd uchel a chynaliadwy rhwng Cymru ac Affrica. Byddwch yn gwneud hyn drwy weithio ar sail un-i-un gydag unigolion sy'n rhedeg elusennau bach a phartneriaethau, nodi eu hanghenion, a'u cefnogi i ddod o hyd i atebion i'r heriau sy'n eu hwynebu, a gweithio i safonau uchel. Yn ogystal, byddwch yn cefnogi dylunio a chyflwyno rhaglen o hyfforddiant, dysgu a digwyddiadau rhannu gwybodaeth ar draws Cymru.

Mae Hub Cymru Africa yn cael ei letya gan Banel Cynghori Is-Sahara, ac yn cefnogi sefydliadau cymdeithas sifil, mentrau dan arweiniad y diaspora, a grwpiau cymunedol sy'n gweithio i adeiladu dyfodol mwy teg a mwy cynaliadwy rhwng Cymru, Affrica a thu hwnt.



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Rydym yn chwilio am rywun sy'n mwynhau gweithio fel rhan o dîm, sydd â digon o hyder i gyflwyno hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb, sy'n gallu cefnogi grwpiau ac unigolion i ddod o hyd i atebion i broblemau, ac sydd â dealltwriaeth gadarn o sut i fonitro a gwerthuso ein gwaith er mwyn ein helpu i ddysgu a gwella.

Yn ogystal â hyn, rydym yn chwilio am rywun sydd yn gallu bod yn hyblyg gyda'i amser. Nid yw hyn yn golygu gweithio "oriau hir", ond eu bod nhw, pan fo angen, yn gallu cyflwyno sesiwn hyfforddi 9–5, ein cynrychioli mewn digwyddiad ar ddydd Sadwrn, neu gael cyfarfod gyda gwirfoddolwr sydd efallai ond ar gael gyda'r nos. Gellir cymryd yr amser hwn yn ôl, ond ni fydd y rôl yn addas i rywun sydd angen patrwm gwaith llym iawn.

# Bydd cyfrifoldebau penodol ar gyfer y rôl hon yn cynnwys

**1. Cymorth Datblygu**

- Cydlynu cymorth datblygu i unigolion, grwpiau a sefydliadau, gan asesu anghenion, sicrhau dysgu rhwng cyfoedion, ymchwilio i adnoddau a darparu offer
- Gweithio gyda sefydliadau i'w cefnogi i ddod o hyd i atebion i heriau mewn dylunio rhaglenni, gweithredu, codi arian ac mewn meysydd eraill a nodwyd ar y cyd
- Cefnogi grwpiau i adolygu eu heffeithiolrwydd a'u cynorthwyo i ddatblygu cynlluniau gweithredu, gan gynnwys nodi unrhyw anghenion hyfforddi neu feysydd cymorth pellach
- Sicrhau bod gennych yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd hyfforddi a datblygu'r Trydydd Sector, er mwyn cysylltu grwpiau â hyfforddiant a digwyddiadau sy'n ateb eu hanghenion
- Cefnogi grwpiau i ddatblygu cynlluniau monitro a gwerthuso ar gyfer eu gwaith

**2. Rhaglen Hyfforddiant a Digwyddiadau**

- Chwarae rhan weithredol mewn dylunio a chyflwyno rhaglen hyfforddi HCA, a sicrhau bod profiadau a gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu o fewn y gymuned ehangach
- Adolygu deunyddiau hyfforddi a dysgu presennol a ddatblygwyd gan aelodau o bartneriaeth HCA, gan ganiatáu ar gyfer ymgorffori arferion da a deunyddiau newydd lle bo angen


Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

- Cyflwyno cyrsiau hyfforddi wedi'u teilwra sy'n mynd i'r afael ag effeithiolrwydd sefydliadol, gweithredu ac effaith, ynghyd â phynciau eraill a nodwyd gan bartneriaid.

**3. Manteisio ar gyllid a chyngor codi arian**

- Sicrhau bod gwybodaeth am gyfleoedd cyllido perthnasol yn cael ei rhannu gyda grwpiau ac yn hygyrch iddynt
- Annog a chefnogi grwpiau i wneud ceisiadau am gyllid, gan gynnwys drwy ffrydiau cyllido yn y DU gan yr FCDO, y Loteri Gymunedol a Comic Relief, yn ogystal â sefydliadau a chronfeydd preifat
- Os gofynnir, darparu cymorth manwl i grwpiau drwy'r broses ymgeisio, gan gynnwys darllen ceisiadau drafft a rhoi cyngor, yn enwedig mewn perthynas â grantiau Cymru ac Affrica.

**4. Digwyddiadau Dysgu ar y Cyd**

- Cydlynu ac arwain digwyddiadau dysgu ar y cyd rhanbarthol, gan ddod â grwpiau sy'n gweithio ar themâu penodol at ei gilydd i rannu profiadau
- Gweithio gydag aelodau eraill o dîm HCA i hysbysebu, rheoli a chynnal digwyddiadau ar draws Cymru
- Sicrhau bod gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau yn cael eu dogfennu, a bod yr wybodaeth gyfunol yn cael ei rhannu'n eang o fewn cymuned Cymru ac Affrica
- Datblygu adnoddau newydd ar sail y gwersi a ddysgwyd, lle bo'n berthnasol.

**5. Cyfrifoldebau Trawsbynciol (yn cael eu rhannu gyda holl staff y Bartneriaeth)**

- Sicrhau bod yr holl waith yn cael ei gynllunio a'i gyflwyno fel rhan o Strategaeth gyffredinol Hub Cymru Africa
- Cyfrannu'n deg ac yn gymesur at weithgareddau a rennir y Bartneriaeth, gan gynnwys digwyddiadau mawr, yr elfen gyfathrebu a gwaith allgymorth
- Sicrhau lefel dda o gysylltiad rhwng gwaith sefydliadau'r Bartneriaeth: Cymru Global, Cymru Masnach Deg, Partneriaethau Iechyd Byd-eang Cymru a'r Panel Cynghori Is-Sahara
- Gweithio gyda'r Swyddog Diaspora a Chynhwysiant i sicrhau bod grwpiau wedi'u hymyleiddio yn gallu cael mynediad at gymorth, hyfforddiant a grantiau
- Adrodd ar gynnydd i'ch rheolwr llinell a, pan ofynnir gan y rheolwr, yn uniongyrchol i Fwrdd y Bartneriaeth neu i Lywodraeth Cymru



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

- Sicrhau bod ein cyfrifoldebau diogelu yn cael eu cyflawni ac ein bod yn sicrhau arferion gorau ar draws sector ehangach Cymru ac Affrica
- Sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno'n ddwyieithog ac yn cynyddu cyfranogiad siaradwyr Cymraeg
- Cyfrannu'r holl ddata Monitro, Gwerthuso a Dysgu perthnasol sy'n ofynnol o fewn y prosiect
- Sicrhau bod cyllid yn cael ei wario at ddibenion cymeradwy'r rhaglen, a bod yr holl drafodion yn cael eu cefnogi gan waith papur ariannol
- Ymgymryd, o bryd i'w gilydd, â dyletswyddau eraill pan gânt eu dirprwyo gan Bennaeth y Bartneriaeth neu'r Uwch Reolwr Cymorth Datblygu.

# Manyleb y Person

## Hanfodol

- Addysg hyd at lefel gradd neu brofiad perthnasol a gafwyd drwy waith cyflogedig neu wirfoddol
- Profiad o ddylunio a chyflwyno hyfforddiant a digwyddiadau, yn ddelfrydol i elusennau bach a sefydliadau cymunedol
- Profiad o ddarparu cyngor a chymorth i grwpiau neu unigolion sy'n gweithio ar brosiectau cymunedol
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion cyfoes yn Affrica, datblygiad rhyngwladol ac undod byd-eang
- Dealltwriaeth amlwg o'r sector gwirfoddol, yn enwedig yr heriau sy'n wynebu sefydliadau bach a micro
- Profiad o ddylunio a rheoli prosiectau, gan gynnwys monitro, gwerthuso a dysgu
- Y gallu i weithio'n gydweithredol ac yn gynhyrchiol gyda chyd-aelodau'r tîm, ac yn barod i rannu gwybodaeth yn agored a chefnogi cydweithwyr
- Sgiliau meddwl creadigol a beirniadol i ddatrys problemau, manteisio ar gyfleoedd a chyfrannu at ddyluniad cyffredinol y rhaglen
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol yn Saesneg
- Sgiliau TG da, gyda chryfderau penodol mewn systemau CRM ac ar lwyfannau sy'n cefnogi gwaith digidol ac o bell (e.e. Zoom, Slack, Trello).

## Dymunol

- Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg
- Gwybodaeth a phrofiad o weithio ar faterion cynhwysiant a gwrth-hiliaeth
- Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr yn y gymuned yng Nghymru ac Affrica.



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Y Broses Ymgeisio

I wneud cais am y rôl hon, dylech gwblhau ffurflen gais a'i hanfon drwy e-bost i humanresources@ssap.org.uk erbyn 23: 59pm ar **ddydd Sul, 31 Mai 2026.**

Sylwch y bydd angen i chi anfon eich CV, a chwblhau ffurflen gais hefyd.

Yn anffodus, nid ydym yn gallu cynnig nawdd ar gyfer y rôl hon. Mae angen i chi gael yr hawl gyfreithiol i weithio yn y DU pan rydych yn dechrau gweithio gyda SSAP.

Yn ogystal, fel rhan o'r cynnig cyflogaeth, byddwn yn gwirio eich geirdaon, a bydd angen i ni gymeradwyo'r rhain.

Dyddiad cyfweld: Dydd Iau 11 Mehefin 2026.



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government